Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Tiwtor / Asesydd Gofal Plant **neu** Diwtor / Asesydd Gofal Plant (o dan hyfforddiant) | **Lleoliad** : | Ystyriwn geisiadau o bob rhan o Gymru |
| **Adran** : | Yr Adran Brentisiaethau | **Cyflog** : | Graddfa 4: £29,409 - £31,430 y flwyddyn **neu** Graddfa 3: £26,204 - £28,566 y flwyddyn os o dan hyfforddiant (pro rata) |
| **Oriau Gwaith** : | Llawn amser (35 awr yr wythnos), neu rhan amser (21 neu 28 awr yr wythnos) | **Cytundeb** : | Parhaol |
| **Yn adrodd i** : | Rheolwr Sgiliau ac Anawsterau Dysgu | **Rheolaeth Llinell** : | Dim |

**Plîs nodwch:**

1. Disgwyliem i'r ymgeisydd llwyddiannus gweithio o un o swyddfeydd yr Urdd.
2. Mae teithio cyson ar draws Cymru yn rhan o'r swydd, gyda hyd at ddau ymweliad dros nos y mis os leolir yr ymgeisydd llwyddiannus yn y De. Disgwyliem i hyn leihâi dros gyfnod o 18 mis.
3. Ystyriwn gytundeb 21, 28 neu 35 awr i ymgeisydd gymwys a chytundeb 28 neu 35 awr i ymgeisydd sydd angen hyfforddiant.
4. Bydd y cyfnod hyfforddiant yn flwyddyn, gan symud at raddfa 4 ar ôl flwyddyn o wasanaeth a chwblhad o'r hyfforddiant angenrheidiol.

**Prif bwrpas y swydd:**

Yn dilyn llwyddiannau Adran Brentisiaethau'r Urdd a'r Rhaglen Prentisiaethau Gofal Plant yn mynd o nerth i nerth ers iddo gael ei lansio yn 2022, angen am asesydd eiddgar i ymuno â'r tîm.

Bydd y swydd hon yn un allweddol er mwyn darparu dysgu, addysgu ac asesu o'r safon uchaf i brentisiaid Gofal Plant.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

1. Asesu , tiwtora a chefnogi carfan o ddysgwyr (hyd at 35, hyd at 20 os o dan hyfforddiant, pro rata i gytundebau rhan amser) gan sicrhau eu bod yn cyrraedd safon o'r lefel uchaf.
2. Ymweld â'ch carfan o ddysgwyr yn rheolaidd dros TEAMS ac yn y gweithle.
3. Asesu cymwysterau Gofal Plant Lefel 2 a 3, gan sicrhau bod y gwaith asesu yn digwydd mewn da bryd.
4. Goruchwylio profion ac asesiadau dysgwyr, yn ôl y galw.
5. Mewn cydweithrediad gyda'r tîm Gofal Plant, creu deunyddiau ac adnoddau dysgu addas.
6. Cynllunio rhaglenni eich dysgwyr.
7. Cynnal gweithdai rhithiol ac wyneb yn wyneb, yn ôl y galw. (Mae'n bosib i'r sesiynau yma cael ei gynnal yn hwyrach yn y prynhawn a gyda'r nos yn ôl yr alw. Bydd amserlen yn cael ei rhannu o flaen llaw.)
8. Cydweithio yn agos â thimau eraill yr adran i rannu arferion da.
9. Cynnal cofnodion cyrhaeddiad dysgwyr.
10. Cynnal adolygiadau rheolaidd gyda dysgwyr a rhannu gwybodaeth addas gyda chyflogwyr yn fisol.
11. Sicrhau bod adolygiadau yn cydymffurfio gyda rheolau'r rhaglen.
12. Cydweithio gyda thîm HWB Sgiliau Hanfodol i sicrhau bod sgiliau hanfodol prentisiaid yn cael eu datblygu yn gyfredol trwy gydol eu prentisiaeth.
13. Defnyddio technoleg a meddalwedd addas i hybu cyrhaeddiad dysgwyr.
14. Diweddaru a chynnal Cynllun Unigol Dysgwyr (IALP), gan sicrhau cydymffurfiaeth a rheolau'r rhaglen.
15. Mynychu cyfarfodydd Tîm a rhannu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd eich gwaith a'ch dysgwyr.
16. Cymryd rhan ymroddgar i'r cyfarfodydd tîm a safoni.
17. Ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'i chofnodi'n briodol.
18. Hybu sgyrsiau agored gyda dysgwyr ar amryw o bynciau a'i gyfeirio at adnoddau pellach.
19. Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol gan eich Rheolwr yn ôl y galw.
20. Gweithio o fewn Cod Ymarfer y Cyngor Gweithlu Addysg.
21. Gweithredu mewn modd sydd yn hybu lles, iechyd meddwl a corfforol iach a datblygiad proffesiynol dysgwyr ac aseswyr.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
|---|---|
| 1. Profiad a dealltwriaeth gadarn o'r sector gofal plant.<br>2. Meddu ar gymhwyster gofal plant lefel 3 neu'n uwch, neu gyda phrofiad cyfwerth.<br>3. Sgiliau cyfathrebu o'r safon uchaf ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg a'r Saesneg. (TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, gradd C neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol Lefel 2.)<br>4. Sgiliau technoleg gwybodaeth a ddigidol rhagorol, gyda phrofiad o ddefnyddio rhaglenni Office 365.<br>5. Meddu ar gymhwyster lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Cysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; neu gymhwyster addysgu cydnabyddedig *<br><br>***Nid oes angen y cymhwyster hwn os ydych yn ymgeisio fel Tiwtor / Asesydd o dan hyfforddiant.** | 1. Profiad o ddefnyddio system OneFile (neu system e-portffolio tebyg).<br>2. Profiad o ddatblygu adnoddau dysgu.<br>3. Profiad o gydweithio gyda chyrff gwobrwyo.<br>4. Profiad o fentora eraill.<br>5. Profiad o ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl.<br>6. Profiad o ddarparu yn erbyn rhaglenni a ariannir gan Lywodraeth Cymru.<br>7. Profiad o weithio yn y sector Dysgu Seiliedig ar Waith, Prentisiaethau, Dysgu gydol Oes, neu Addysg Bellach.<br>8. Cymhwyster gofal plant lefel 4 neu 5. |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mehefin 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**Gofynion**: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

---

**Gwiriadau Perthnasol**: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).